CYNGOR TREF FFESTINIOG

Swyddfa'r Cyngor 5 Stryd Fawr
Blaenau Ffestiniog Gwynedd LL41 3ES
✍ **01766 832398**
cyngortrefffestiniog@tiscali.co.uk

COFNODION CYFARFOD ARFEROL O'R CYNGOR GYNHALIWYD NOS IAU 9fed o DACHWEDD 2006 YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.

Copi Drafft

CADEIRYDD : Cynghorydd David Lloyd Hughes

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Rhian Williams, Mel Goch ap Meirion, Arthur H. Williams, Margaretta Young-Jones, Agnes Edwards, Mohammad Tahla ac
Eddie Roberts

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr: H. Emyr Jones, Arwel Jones, Adelyn Ellis, Dafydd G. Dafis, Linda A.W.Jones a Morfydd Lloyd.

Cymerwyd y weddi agoriadol gan y Cadeirydd.

6898/11/06 DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Mel Goch ap Meirion - Gwelliannau Ffestiniog
Cynghorydd Mohammad Tahla - Gwelliannau Ffestiniog

6899/11/06 MATERION BRYS

Derbyniwyd llythyr gan un o drigolion Tai Llanddwyn ynglyn â'r ffordd cyfeiriwyd at Dai Llanddwyn gan y Post Brenhinol. Cofrestrwyd y tai hyn fel Tai Llanddwyn, Lord Street gyda'r Post Brenhinol. Cerir hyn gryn anhawster i'r trigolion yn enwedig, fel y digwyddodd yn ddiweddar, pan mae'r Gwasanaeth Ambiwlans yn methu a chael hyd i'r tai gan iddynt fynd i fyny Heol Foty yn chwilio am y tai hyn. Mae cyfeiriad y Post Brenhinol yn gamarweiniol ac yn golygu cryn trafferion i'r trigolion. Pan mae angen gwasanaethau brys, mae amser prin yn cael ei wastraffu, ac fe all hyn arwain at ganlyniadau brawychus.

PENDERFYNIAD: Tynnu sylw'r Post Brenhinol at y gwall hwn gan nad yw Tai Llanddwyn yn Heol Foty.

6900/11/06 MATERION HEDDLU

'Roedd y Rheolwr Rhawd Gymunedol Dewi Wynne yn bresennol yn y cyfarfod.

Dywedodd yr Heddwas bod mis Hydref wedi bod yn dawel hyd y dref a ni dderbyniwyd yr un galwad at yr Heddlu ar Noson Calan Gaeaf nac Noson Tan Gwyllt. Yn gyffredinol mae gostyngiad o 7.1% mewn materion troseddol i gymharu â llynedd. Mae cyfradd datgeliad Blaenau Ffestiniog yn 60.6% i gymharu ag 56.2% ym Meirionnydd gyfan.

Fel rhan o Daith am Waith mi fydd pobl ifanc yn plannu bylbiau ger ardal Isallt yn ystod y mis. Mae'r Heddwas wedi trefnu cyhoeddusrwydd ar gyfer i weithred hyn gan iddo deimlo ei bod yn bwysig i'r bobl ifanc gael eu gweld pan maent yn ymgymryd a gwaith cymdeithasol.

Daliwch y Deliwr yn barhaol yn llwyddiannus iawn yn y dref a bydd yr Heddlu yn gweithredu ar unrhyw wybodaeth a ddaw i law.

Caiff camera CC ei leoli yn y dref o'r wythnos dechrau 20fed o Dachwedd hyd at y flwyddyn newydd, gyda'r fan camera yn cefnogi'r Heddlu ar Noson Ffair Llan a Noson Goleuo 'Stiniog. Yn ystod Ffair Llan caiff ffordd Penybryn ei chau a lleolir goleuadau tair ffordd ger Yr Adwy. Mi fydd Heddweision ychwanegol ar gael ar gyfer y noson.

Dechreuir ar y gwelliannau i'r A470 ym mis Mawrth ac fe leolir tua naw set o oleuadau traffic yn yr ardal yn ystod y cyfnod hwn. Bydd dau set o oleuadau parhaol a tua saith o oleuadau dros dro. Mae trefniadau mewn llaw ar gyfer defnyddio mwy ar yr Ambiwlans Awyr hyd nes cwblheir y gwaith a gobeithir sicrhau man glanio ar gyfer yr hofrennydd.

Gofynnodd yr Heddwas i'r Cyngor roddi gwybodaeth iddo os darganfuwyd graffiti gan fod yr Heddwas wedi trefnu bordau graffiti a fydd yn cael eu rhoddi i ysgolion y dref ac yna yn cael eu lleoli ar yr orsaf.

Cafwyd trafodaeth ynglyn â lloches bws Diffwys a chadarnhawyd bod nifer o lechi yn rhudd ar y to a bod cynllun y lloches yn ei gwneud yn amhosib gweld pryd bydd pobl ifanc yn camymddwyn oddi fewn iddo.

Cafwyd canmoliaeth i'r gwaith a wneir gan Delyth Edwards y Swyddog Cynhaliaeth Cymuned yn y dref.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu at Gyngor Gwynedd a gofyn am eu barn ynglyn â'r lloches bws a hefyd y gost o ddymchwel y lloches bresennol a chodi un gwyrdd yn ei le.

6901/11/06 ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD CYMRU

Copi Drafft

Ymateb i lythyr y Cyngor ynglyn â phryderon trigolion Cwm Cynfal. Cafwyd gwybodaeth bod trefniadau ar y gweill i ddylunio a darparu arwyddion rhybudd i'r gyffordd sy'n arwain at Fythynnod Ynys a Forest Lodge ger Bont Newydd. Bwriedir hefyd asesu sustem llinellau gwyn ddwbl ger y gyffordd gan ystyried cyflymdra trafnidiaeth a'r gweleded ymlaen. Hefyd, fel y cytunwyd gyda'r Heddwas Dewi Wynne, bwriedir codi ffens ar draws rhan o'r fynedfa i'r gysgodfan bws.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a threfnu i gynnwys y gysgodfan bws yma yng nghynllun glanhau'r Cyngor Tref.

6902/11/06 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ARFEROL 12fed o HYDREF 2006

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn cynnig a'r Cynghorydd Eddie Roberts yn eilio gyda chywirdeb ar gofnod 6882 yn y Saesneg i ddarllen na adawyd y llythyr ar y bwrdd.

6903/11/06 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ARFEROL 18fed o HYDREF 2006

PENDERFYNIAD: Eu gohirio hyd at gyfarfod mis Rhagfyr.

6904/11/06 SEDD WAG YN WARD BOWYDD A RHIW

Yn dilyn marwolaeth y Cynghorydd Elinor Jones ym mis Medi, mae sedd wag yn ward Bowydd a Rhiw.

PENDERFYNIAD: Gyda thristwch datgan sedd wag yn ward Bowydd a Rhiw

6905/11/06 RHYBUDD O GYNIGIAD GAN Y CYNGHORYDD MEL GOCH AP MEIRION

'Bod Cyngor Tref Ffestiniog yn ystyried cynnwys cae Bryn Coed, Ffestiniog oddi fewn cynllun yswiriant caeau chwarae'r Cyngor'

Cae o fewn perchnogaeth i Gyngor Gwynedd yw cae Bryn Coed ac wedi ei osod ar les hir i Gwelliannau Ffestiniog. Y bwriad yw cynnal astudiaeth dichonolrwydd i wella'r adnoddau er enghraifft draenio'r cae er mwyn gallu cael adnoddau ar gyfer plant hyn, maes parcio, byrddau picnic ac yn y blaen. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn fuan ynglyn â chynllun terfynol ar gyfer y cae. Mae yswiriant ar gyfer y cae yn cael ei dalu gan Gwelliannau Ffestiniog ar hyn o bryd, ond yn anffodus fel bydd gwelliannau yn yr adnoddau ar gael bydd y gost yswiriant yn codi. Ar hyn o bryd mae'r gost yswiriant oddeutu £300.00 y flwyddyn a gofynnir a wnaiff Cyngor Tref Ffestiniog ystyried cynnwys y cae hwn yn eu cynllun yswiriant.

PENDERFYNIAD: Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn cadarnhau eu sefyllfa hwy parthed y cae yma a hefyd gwneud ymholiadau a chwmni Zurich er mwyn cael gwybodaeth

Copi Drafft

ynglyn a'r gost ychwanegol os bydd y cae hwn yn cael ei gynnwys yng nghynllun yswiriant y Cyngor Tref.

6906/11/06 CYNGOR GWYNEDD - CYFADRAN YR AMGYLCHEDD

Ymateb i lythyr y Cyngor ynglyn â biniau sbwriel. Bydd swyddog o adran Uwch Reolwr Uned Darparu Fwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn cwrdd â'r Cadeirydd a'r clerc diwedd mis Tachwedd er mwyn ceisio datrys y broblem hon.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth.

6907/11/06 IS BWYLLGOR CYNLLUNIO

Cynhaliwyd Is- Bwyllgor Cynllunio yn Siambr y Cyngor, Hydref 17eg 2006 am 10.00 o'r gloch y bore.

Adroddiad gydag argymhellion yr is- bwyllgor gan y Cadeirydd.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a'r argymhellion.

6908/11/06 CEISIADAU CYNLLUNIO

Datgan Diddordeb Cynllunio Cyngor Gwynedd

Ni fu'r Aelodau lleol ar Gyngor Gwynedd, Cynghorwyr Arwel Jones ag Linda A W Jones, yn bresennol yn ystod y cyfarfod.

Mae'r ceisiadau isod wedi cael eu derbyn rhwng cyfarfod 12fed o Hydref 2006 a chyfarfod 9fed o Dachwedd 2006

a) Cais Cynllunio Rhif CO6M/0173/03/LL
2 Tanygrisiau Terrace

Cais ôl gweithredol i gadw lolfa haul i flaen yr annedd.
Gwrthwynebiad ar sail cysondeb a Chais Cynllunio CO5M/0099/03/LL

b) Cais Cynllunio Rhif CO6M/0176/03/LL
bresennol.
3 Tanygrisiau Terrace

Lolfa Haul i flaen yr annedd

Gwrthwynebiad ar sail cysondeb a Chais Cynllunio CO5M/0099/03/LL

c) Cais Cynllunio Rhif CO6M/0172/03/AM

Copi Drafft

Fferm Frondirion, Blaenau Ffestiniog	Cais amlinellol i adeiladu un annedd. Dim gwrthwynebiad

ch) Cais Cynllunio Rhif NP5/59/12E

Hafod Pengwern, Ffestiniog	Estyniad i'r ports cefn. Dim gwrthwynebiad

d) Cais Cynllunio Rhif NP5/59/699A

Clogwyn Brith, Ffestiniog	Trosi cyn bwthyn a thy allan yn dy Dim gwrthwynebiad os cyfyngwyd perchnogaeth i bobl leol.

dd) Cais Cynllunio Rhif NP5/59/697A modurdy.

Ty Coets, Ffestiniog	Trosi cyn ty goets yn dy gan gynnwys Dim gwrthwynebiad os cyfyngwyd perchnogaeth i bobl leol.

e) Cais Cynllunio Rhif CO6M/0175/03/LL weithdy

Cylch yr Efail, Blaenau Ffestiniog	Codi estyniad (Ystafell Gorffwys) ar Dim gwrthwynebiad.

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD GYNGOR GWYNEDD

a) Cais Rhif:- CO6M/0148/03/LL

Blaenau Plastics Tanygrisiau	Ail-leoli silo – Caniatáu

b) Cais Rhif:- CO6M/0168/03/LL

Rhiwbryfdir Studio	Estyniad i greu toiled ac ystafell boeler (cynllun diwygiedig) – Caniatáu

c) Cais Rhif:- CO6M/0157/03/LL

Canton House, 19 Stryd Fawr	Trosi siop ac annedd yn siop a 3 fflat dwy ystafell wely – Gwrthod

ch) Cais Rhif:- CO5M/0241/03/LL

Cyn Fecws, Ffordd Dorfil	Estyniadau ac addasiadau i fecws presennol i greu 3 ty tri llawr ac 2 fflat ac un uned adwerthu – Gwrthod

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Copi Drafft

a)	Cais Cynllunio Rhif NP5/59/704 32 Bryn Coed, Ffestiniog	Codi estyniad unllawr i ddarparu llofft ag ystafell ymolchi ar gyfer person anabl. – Caniatáu
b)	Cais Rhif:- NP5/59/361F Tir ger Awel y Mynydd Ffestiniog	Codi ty newydd gyda modurdy arwahan - Caniatáu
c)	Cais Rhif:- NP5/59/703 Manod House, Ffestiniog	Trosi llawr gwaelod siop cigydd gwag yn fflat - Caniatáu
ch)	Cais Rhif:- NP5/59/693B Dolwar, Penybryn, Ffestiniog	Ffenestr dormer i'r cefn, Velux i'r blaen a symud y gegin i'r seler - Caniatáu
d)	Cais Rhif:- NP5/59/353E Llain 8, cyn Iard Adeiladwyr Ffestiniog	Diwygiad i ddyluniad y ty - Caniatáu
dd)	Cais Rhif:- NP5/59/LB200E Pengwern Old Hall	Caniatad adeilad rhestredig i ychwanegu at y talcen, rhannol osod gwres canolog, cegin osodedig, ystafell cawod a drysau mewnol - Caniatáu
e)	Cais Rhif:- NP5/59/678A Bryn Hyfryd newydd i'r Ffestiniog	Creu darpariaeth parcio gydag agoriad ffordd - Gwrthod

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth.

6909/11/06 ADEILAD SWYDDFA'R CYNGOR

Yn dilyn cyfarfod gyda Mr John Wyn Williams, a drefnwyd drwy Lygad Busnes, cadarnhaodd na allai weld problem ynglyn a'r Cyngor yn derbyn grantiau tuag at addasu ac adnewyddu'r adeilad. Cafwyd gwybodaeth y bydd yn anodd darganfod grantiau ar gyfer defnyddio'r adeilad fel swyddfeydd ac ystafell cyfarfod, ond bydd yn haws cael grantiau ar gyfer adeilad hybu'r dref. Cafwyd trafodaeth ynglyn a phwyntiau o blaid ac yn erbyn prynu'r adeilad

Copi Drafft

a bydd dadl ynglyn a chael barn trigolion y dref a ddylai'r Cyngor Tref parhau yn yr adeilad presennol yn Sgwâr Diffwys

PENDERFYNIAD: Paratoi holiadur er mwyn cael barn y dref

6910/11/06 CHWIFIO'R DDRAIG GOCH

Bu i'r Cyngor Tref dderbyn dau lythyr yn ddiweddar yn holi paham nad yw'r Ddraig Goch yn cael ei chwifio ar bedwar diwrnod bob blwyddyn. Yn dilyn trafodaeth ynglyn â ble gall y Cyngor osod banner ei gwlad, gwneuthur ymholiadau ynglyn â phris polyn metel wedi ei bolltio, pris baneri ac yswiriant ac ymgymryd asesiad risg cyfaddasrwydd Sgwâr Diffwys.

PENDERFYNIAD: Derbyn y prisiau a gafwyd ynglyn â baneri a phenderfynu derbyn cyngor a gafwyd gan un cwmni y bydd polyn ffibr gwydr yn fwy addas nac un alwminiwm. Gwneud ymholiadau gyda Chyngor Gwynedd ynglyn â chaniatâd i osod y rhain ar eu tir yn Sgwâr Diffwys.

6911/11/06 CAMERA CC

Cafwyd trafodaeth ynglyn â lleoli camera CC yn barhaol yn y dref. Rhoddwyd ymlaen y syniad o ariannu'r camera yma drwy godiad yn y dreth.

PENDERFYNIAD: Disgwyl hyd ddaw gwybodaeth i law ynglyn ag arian a gymerwyd ymaith gan yr Heddlu a'r defnydd a wneir o'r arian yma.

6912/11/06 YPI

Cafwyd trafodaeth ynglyn â diffyg ymateb gan reolwyr yr YPI i gais Cyngor Tref am ad-daliad o'r arian a roddwyd iddynt. Gofynnir am yr ad-daliad yma gan nad yw'r YPI wedi cadw at amod a roddwyd gan y Cyngor Tref pan wnaethpwyd y rhodd arian.

PENDERFYNIAD: Ysgrifennu at y Pwyllgor Rheoli yn eu hatgoffa nad yw'r Cyngor wedi derbyn ymateb i'w lythyr a bygwth mynd ymlaen at Lys Man Ddyledion

6913/11/06 CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Cynhelir cyfarfod Pwyllgor Rhanbarth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y Canolbarth a'r Gorllewin dydd Gwener, 17 Tachwedd 2006. Cynhelir y cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Pen-y-bont a'r Ardal, ger Llandrindod am 10.00 o'r gloch.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth

Copi Drafft

6914/11/06 UNLLAIS CYMRU

Cynhelir cyfarfod nesaf o Bwyllgor Ardal Meirionnydd ar nos Fercher 15 Tachwedd 2006 yn y Pafiliwn Mawr, Dolgellau am 7.00 o'r gloch.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth.

6915/11/06 UNLLAIS CYMRU

Llythyr yn atgoffa'r Cyngor nad yw wedi ail ymaelodi eleni.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu ac ymestyn gwahoddiad i gynrychiolydd o'r gymdeithas i gyfarfod y Cyngor Tref yn y flwyddyn newydd.

6916/11/06 PARTNERIAETH PLANT A PHOBL IFANC GWYNEDD

Mae Cyngor Gwynedd wedi comisiynu ymgynghorydd annibynnol i adolygu trefniadau partneriaeth bresennol a rhoi cynigion gerbron ar gyfer cael dulliau gwell o weithio mewn partneriaeth. Gwahoddir sylwadau ynghylch yr argymhellion hyn

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth.

6917/11/06 CYNGOR GWYNEDD - CYFADRAN YR AMGYLCHEDD

Rhaglen waith mis Tachwedd
A470 Manod – Cwmbowydd – ail wynebu

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth.

6918/11/06 TOWN GUIDES 2007

Cais i gael argraffu llyfryn ar gyfer ymwelwyr i'r dref

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a gadael y llyfryn ar y bwrdd i unrhyw Aelod sydd â diddordeb gymryd ei benthyg.

6919/11/06 Y CERDDWYR

Ymgyrch Conwy

Copi Drafft

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a gadael y llyfryn ar y bwrdd i unrhyw Aelod sydd â diddordeb gymryd ei benthyg.

6920/11/06 GOFAL A THRWSIO GWYNEDD

Adroddiad ar ganlyniadau Cynhadledd Gofal a Thrwsio Gwynedd a gynhaliwyd yn y Galeri, Caernarfon ar 24ain o Orffennaf 2006

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a gadael y llyfryn ar y bwrdd i unrhyw Aelod sydd â diddordeb gymryd ei benthyg.

6921/11/06 LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Draft Guidance on the Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005 (Saesneg yn unig)

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a gadael y llyfryn ar y bwrdd i unrhyw Aelod sydd â diddordeb gymryd ei benthyg.

6922/11/06 CYNGOR GWYNEDD - CYFADRAN YR ADNODDAU

Adolygiad o'r Gwasanaeth Cofrestru Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau yng Ngwynedd

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a gadael y llyfryn ar y bwrdd i unrhyw Aelod sydd â diddordeb gymryd ei benthyg.

6923/11/06 GRW RHANDDEILIAID Y SAFLE, TRAWSFYNYDD

Copi o Adroddiad Cryno Interim Cyflwr Terfynol Trawsfynydd

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a gadael y llyfryn ar y bwrdd i unrhyw Aelod sydd â diddordeb gymryd ei benthyg.

6924/11/06 PARTNERIAETH ECONOMAIDD GWYNEDD

Ar sail yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyfarfod Blynyddol, cytunwyd i adolygu aelodaeth y Bartneriaeth a'r Grwp Llywio. Cais I gwblhau'r ffurflen gofrestru aelodaeth

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth.

Copi Drafft

6925/11/06 NEUADD BUDDUG

Rhaglen y Gaeaf

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a gadael y manylion ar y bwrdd i unrhyw Aelod sydd â diddordeb gymryd ei benthyg.

6926/11/06 CLERKS AND COUNCILS DIRECT

Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a gadael y llyfryn ar y bwrdd i unrhyw Aelod sydd â diddordeb gymryd ei benthyg.

6927/11/06 CYFRIFON I'W TALU

PAYE	£ 219.40	Rhif Siec	000746	
Catrin Euros (Cyfieithu)	£ 106.75	Rhif Siec	000748	
Arian Parod	£ 30.00	Rhif Siec	000749	
Nefyn Cleaning (llochesi bws)	£ 199.76	Rhif Siec	000750	
Blachere Illumination (Goleuadau Nadolig)	£ 957.46	Rhif Siec	000751	
BT (Ffon)	£ 129.57	Rhif Siec	000752	
G A Parry (Meinciau)	£ 181.59	Rhif Siec	000753	
J E Daniels (gwaith 2005)	£ 478.00	Rhif Siec	000754	
Viking Direct (defnydd swyddfa)	£ 161.00	Rhif Siec	000755	
A M Coxon (Costau Teithio)	£ 108.25	Rhif Siec	000756	
RBL (Pabi)	£ 49.50	Rhif Siec	000757	
Catrin Euros (Cyfieithu)	£ 55.00	Rhif Siec	000748	
Hacker Young (Archwiliwr Allannol)	£ 434.75	Rhif Siec	000759	
Blachere Illumination (Goleuadau Nadolig)	£ 7155.75	Rhif Siec	000761	

6928/11/016 CEISIADAU ARIANNOL

Yn ein Blaenau	£ 210.00	Rhif Siec	000760

Rhoddwyd caniatâd i'r clerc dalu'r uchod.

Copi Drafft

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.30 yr hwyr.

CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD 7 fed RAGFYR 2006
AR 1af O RAGFYR 2006

CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR
NOS IAU 7 fed O RAGFYR 2006
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 yh

Copi Drafft

CADEIRYDD